

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Alliance Medical Cardiff

Dyddiad yr arolygiad: 27 Chwefror 2024

Dyddiad cyhoeddi: 29 Mai 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83625-143-9

© Hawlfraint y Goron 2024

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	15
4.	Y camau nesaf	18
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	19
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	20
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	21

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Alliance Medical Cardiff ar 27 Chwefror 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Uwch-arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac un adolygydd cymheiriaid clinigol.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd Alliance Medical Cardiff yn ymrwymedig i ddarparu gofal i gleifion mewn amgylchedd a oedd yn addas i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel. Roedd y staff yn rhoi pwyslais ar hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd yr amgylchedd hefyd yn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion. Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol ar eu profiadau gan ddweud bod y gwasanaeth yn 'dda iawn'.

Roedd trefniadau ar waith i gleifion fynegi eu barn am y gwasanaethau a ddarperir yn y clinig ac roedd canlyniadau'r adolygiadau hynny wedi'u harddangos. Roedd y cleifion yn cael eu gweld yn brydlon a byddent yn cael gwybod pe bai oedi.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r gwasanaeth adolygu'r polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i Gleifion ac Ymwelwyr a rhannu'r polisi wedi'i ddiweddarau â'r staff ar ôl iddo gael ei gadarnhau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yn rhaid i'r cleifion roi eu cydsyniad cyn cael eu sgan
- Roedd gwybodaeth mewn perthynas â chleifion trawsryweddol a'r rhagenwau a ffefrir ganddynt yn cael ei nodi er mwyn diogelu eu hawliau a'u hurddas.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd trefniadau addas ar waith yn y clinig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd y trefniadau hyn wedi'u hategu gan amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig cyfredol a pherthnasol.

Roedd amgylchedd y clinig yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da yn ôl pob golwg. Roedd trefniadau a phrosesau addas ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau ac ar gyfer dihalogi'r cyfarpar a ddefnyddir yn y clinig. Mae angen i'r clinig sicrhau y caiff gwaith glanhau yn y clinig ei gofnodi'n briodol.

Gwelsom fod y cofnodion a oedd yn cael eu cadw yn y clinig yn glir, yn gywir ac yn ddarllenadwy.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r gwasanaeth sicrhau y caiff cofnodion glanhau eu cwblhau a'u cadw ar ffeil er mwyn gallu cyfeirio atynt yn y dyfodol
- Rhaid adolygu'r polisi 'Rheoli amgylchedd delweddu glân a diogel' a'i rannu â'r staff ar ôl iddo gael ei ddiweddarau a'i gadarnhau.
- Rhaid i'r gwasanaeth adolygu a diweddarau ei ddatganiad o ddiben a sicrhau ei fod ar gael os bydd cleifion yn gofyn amdano.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd polisiâu a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg
- Roedd y staff yn ofalgar ac yn treulio amser ychwanegol gyda chleifion nerfus i'w helpu i gael eu delweddau diagnostig yr oeddent wedi methu â'u cwblhau mewn lleoliadau blaenorol eraill.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yn amlwg bod y staff yn canolbwyntio ar y cleifion a'u bod yn meddu ar y sgiliau priodol i ddarparu gofal diogel i gleifion. Roedd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir ar waith ac roedd y trefniadau llywodraethu a ddisgrifiwyd ac a ddangoswyd yn effeithiol.

Roedd trefniadau mewn perthynas â hyfforddiant gorfodol, arfarniadau a recriwtio yn y clinig yn dda ac yn sicrhau bod y staff perthnasol yn cael eu cyflogi a'u datblygu'n briodol yn eu rolau.

Roedd gan y clinig un swydd wag ar gyfer radiograffydd a oedd yn golygu bod y gwasanaeth yn gweithredu gan ddefnyddio'r isafswm staff sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion y cleifion. Rydym wedi gofyn i'r gwasanaeth roi sicrwydd i AGIC o ran sut y gall wneud yn siŵr bod y gwasanaeth yn gynaliadwy o ran adnoddau staff, er mwyn sicrhau nad yw'n effeithio ar lesiant yr aelodau presennol o staff.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y caiff y rheolwr cofrestredig yn y clinig ei mentora, ei goruchwyllo a'i chefnogi'n briodol wrth gyflawni ei rôl
- Mae angen ychwanegu manylion cyswllt AGIC at y daflen Sylwadau, Pryderon a Chwynion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gwybodaeth berthnasol am y clinig a'r gwasanaethau roedd yn eu darparu ar gael yn y canllaw i gleifion a oedd wedi'i arddangos yn glir yn y clinig.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y clinig i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y clinig. Derbyniwyd cyfanswm o 16 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd yr adborth yn gadarnhaol, a dywedodd pob un o'r cleifion fod y gwasanaeth yn 'dda iawn'.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

“Roedd popeth yn broffesiynol a chyfeillgar iawn. Byddwn i'n sicr yn argymhell y gwasanaeth i ffrindiau a theulu.”

“Staff cyfeillgar hyfryd a wnaeth i fi a'm teulu deimlo'n gyfforddus. Diolch.”

“Staff arbennig. Cyfeillgar, llawn gwybodaeth, mae'n bleser bod yn eu cwmni.”

Diogelu a gwella iechyd

Roedd y cleifion yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros reoli eu hiechyd eu hunain drwy'r cyngor hybu iechyd a oedd ar gael iddynt yn yr ystafell aros. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am roi'r gorau i smygu, lefelau alcohol diogel a sut i adnabod arwyddion strôc.

Urddas a pharch

Gwelsom y staff yn trin y cleifion ag urddas a charedigrwydd drwy gydol yr arolygiad. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch. Dywedodd un claf:

“Roedd y staff yn barod iawn i helpu, yn gwrtais ac yn ofalgar. Nid oedd unrhyw beth yn ormod o drafferth.”

Roedd poster yn yr ystafell aros yn hysbysu cleifion am eu hawl i ofyn am hebryngwr. Roedd dwy ystafell newid ar gael i'r cleifion newid yn breifat cyn cael eu sgan. Roedd ystafell ymgynghori ar gael i'r cleifion gael lliw cyferbynnu drwy linell fewnwythiennol er mwyn helpu i allu gweld yr ardal a oedd yn cael ei sganio'n gliriach. Roedd gan yr ystafell ymgynghori fleinds a llenni o amgylch y gwely trin i roi mwy o breifatrwydd i'r cleifion. Roedd pob un o'r cleifion a

gwblhaodd holiadur o'r farn bod mesurau priodol wedi cael eu cymryd i amddiffyn eu preifatrwydd yn ystod eu hamser yn y clinig.

Disgrifiodd y staff drefniadau addas i gynnal cyfrinachedd wrth siarad â chleifion wyneb yn wyneb a dros y ffôn.

Cyfathrebu'n effeithiol

Caiff y cleifion eu hatgyfeirio at y clinig gan y GIG neu ddarparwyr gofal iechyd eraill. Ar ôl cael yr atgyfeiriad, bydd y clinig yn anfon llythyr a phecyn croeso at y cleifion. Mae'r llythyr yn cynnwys gwybodaeth am amser yr apwyntiad a beth y dylent ddod gyda nhw. Mae'r pecyn croeso yn cynnwys copi o'r canllaw i gleifion, gwybodaeth am y driniaeth a ffurflen gydsynio i'r cleifion ei lofnodi.

Dyweddodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y staff wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol y driniaeth, yn ateb eu cwestiynau ac yn gwrandao arnynt. Dywedodd un o'r cleifion:

“Roedd y staff yn garedig ac yn gefnogol iawn o ran fy nghlawstroofobia. Caiff popeth ei gyflwyno'n dda, ac esboniodd y staff bopeth i mi cyn y sgan.”

Dyweddodd y staff wrthym eu bod yn gallu defnyddio gwasanaeth cyfieithu er mwyn helpu i gyfathrebu â chleifion nad Saesneg yw eu mamiaith. Roedd gwybodaeth yn cael ei rhoi yn Saesneg yn bennaf, a byddai'n fuddiol i'r clinig hysbysu'r cleifion y gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd eraill ar gais.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Roedd amrywiaeth eang o wybodaeth yn cael ei harddangos i gleifion yn yr ystafell aros. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am sut i wneud cwyn, canlyniadau adborth cleifion a gwybodaeth am y sganiwr MRI. Byddai cleifion â mynediad i'r rhyngwrwyd hefyd yn gallu dod o hyd i wybodaeth am yr amrywiaeth o driniaethau sydd ar gael ar wefan y practis.

Rhoddir gwybodaeth i'r cleifion fel rhan o'r pecyn croeso a gallant drafod y driniaeth â'r staff pan fyddant yn cyrraedd a chyn mynd i mewn i'r sganiwr MRI. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael a risgiau a manteision yr opsiynau hyn.

Mae'n ofynnol i'r cleifion lofnodi ffurflen gydsynio cyn mynd i mewn i'r sganiwr. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum claf a gwelsom dystiolaeth bod cydsyniad dilys wedi'i gael gan y claf ym mhob achos. Cadarnhaodd pob un o'r

cleifion a gwblhaodd holiadur hefyd eu bod wedi llofnodi ffurflen gydsynio cyn cael eu sgan.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd y cleifion yn cael eu gweld ar sail apwyntiad yn unig a chawsant eu gweld yn brydlon yn ystod yr arolygiad. Nodwyd bod y cleifion yn cael gwybod am unrhyw amseroedd aros ac unrhyw reswm dros oedi cyn gweld y clinigydd. Os na fyddai'r cleifion yn gallu aros, dywedwyd wrthym y byddent yn cael cyfle i aildrefnu eu hapwyntiad.

Yn ôl yr hyn a welsom ar y diwrnod, roedd yn amlwg mai gofal cleifion a darparu profiad cyfforddus oedd prif flaenoriaeth y clinig.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod eu hanes meddygol wedi cael ei wirio cyn iddynt gael eu triniaeth. Gwelsom dystiolaeth hefyd yn yr holl gofnodion cleifion a welsom fod gwybodaeth yn cael ei chofnodi am feddyginiaethau sy'n cael eu cymryd ar y pryd ac unrhyw alergeddau neu adweithiau niweidiol.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd gwasanaethau yn cael eu darparu yn y clinig mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau pobl. Gwelsom fod addasiadau rhesymol wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y clinig yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd.

Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, hyfforddiant Statws Beichiogrwydd Cynhwysol a hyfforddiant i ddeall Anableddau Dysgu, dementia ac awtistiaeth a bod yn ymwybodol ohonynt. Roedd polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i Gleifion ac Ymwelwyr ar waith. Fodd bynnag, nodwyd gennym mai'r dyddiad adolygu ar y polisi hwnnw oedd mis Ionawr 2024.

Rhaid i'r gwasanaeth adolygu'r polisi a rhannu'r polisi wedi'i ddiweddarau â'r staff ar ôl iddo gael ei gadarnhau.

Gwelsom fod gwybodaeth mewn perthynas â chleifion trawsryweddol a'r rhagenwau a ffefrir ganddynt yn cael ei nodi ar y ffurflen gydsynio diogelwch cleifion er mwyn diogelu eu hawliau a'u hurddas.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur nad oeddent wedi wynebu gwahaniaethu wrth drefnu na defnyddio'r gwasanaeth yn y clinig.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Roedd arolwg boddhad cleifion yn cael ei roi i bob claf ar ôl ei apwyntiad. Caiff y canlyniadau eu casglu gan y brif swyddfa a'u rhannu â'r clinig er mwyn nodi unrhyw feysydd i'w gwella. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym mai adborth cadarnhaol a geir gan y cleifion fel arfer. Roedd poster 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' wedi'i arddangos yn yr ystafell aros a oedd yn dangos canlyniadau'r arolygon diweddaraf.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a phobl sy'n ymweld â'r clinig. Roedd yr adeilad yn ddiogel ac roedd intercom er mwyn gofyn am fynediad i'r clinig.

Gwelsom fod yr adeilad mewn cyflwr da ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg. At hynny, roedd yn gynnes ac yn groesawgar, ac roedd ystafell y dderbynfa wedi'i haddurno i safon uchel yn gyffredinol. Roedd yr ystafell sganio yn cynnig awyrgylch tawel â golygfeydd wedi'u paentio ar y waliau, ac roedd teledu a cherddoriaeth ar gael i helpu'r cleifion i ymlacio.

Roedd cyfarpar diogelwch tân ar gael mewn gwahanol leoliadau yn y clinig, a gwelsom fod y cyfarpar hwnnw wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd pob un o'r ardaloedd a arolygwyd gennym yn lân ac yn daclus yr olwg. Roedd yr amgylchedd mewn cyflwr da ac wedi'i ddodrefnu mewn ffordd a oedd yn hwyluso trefniadau glanhau effeithiol. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y clinig yn 'lân iawn' a bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn.

Roedd staff mewnol yn glanhau'r ardaloedd clinigol a'r cyfarpar meddygol bob dydd ac roedd cwmni glanhau allanol yn dod deirgwaith yr wythnos i lanhau'r amgylchedd ehangach. Fodd bynnag, nid oedd y cwmni allanol yn cynnal nac yn llofnodi amserlenni glanhau i gofnodi'r ffaith eu bod wedi ymgymryd â gwaith glanhau.

Rydym yn argymhell y dylai'r gwasanaeth sicrhau y caiff cofnodion glanhau eu cwblhau a'u cadw ar ffeil er mwyn gallu cyfeirio atynt yn y dyfodol.

Dywedwyd wrthym fod cyfarpar diogelu personol yn cael ei ddefnyddio yn unol â chanllawiau'r llywodraeth ar y pryd. Roedd gan bob aelod o'r staff y gwnaethom siarad ag ef ddealltwriaeth dda o'r prosesau rheoli heintiau a'r defnydd o gyfarpar diogelu personol. Yn ogystal, roedd ymwybyddiaeth dda o safonau hylendid dwylo ac roedd arferion da ar waith yn hynny o beth.

Roedd amrywiaeth o bolisiau atal a rheoli heintiau ar waith. Roedd y mwyafrif ohonynt yn gyfredol, ond gwnaethom nodi nad oedd y polisi 'Rheoli amgylchedd

delweddu glân a diogel' yn gyfredol ac y dylai fod wedi cael ei adolygu ym mis Ionawr 2023.

Rhaid i'r gwasanaeth adolygu'r polisi a rhannu'r polisi wedi'i ddiweddarau â'r staff ar ôl iddo gael ei gadarnhau.

Roedd system ar waith i reoli gwastraff clinigol mewn ffordd briodol a diogel. Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd polisiâu a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Roedd y polisiâu yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol, ynghyd â siartiau llif manwl a oedd yn hysbysu'r staff am y camau gweithredu i'w cymryd pe bai mater diogelu yn codi.

Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu priodol a dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad wybodaeth dda am y gweithdrefnau diogelu a'r trefniadau adrodd.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd gan y clinig y cyfarpar a'r dyfeisiau meddygol perthnasol i ddiwallu anghenion y cleifion. Gall pob aelod o'r staff roi gwybod am unrhyw faterion, diffygion neu bryderon yn uniongyrchol i'r rheolwr cofrestredig sy'n gyfrifol am drefnu unrhyw waith atgyweirio sy'n ofynnol.

Dywedwyd wrthym fod y sganiwr ar gyfer y clinig wedi'i brynu yn 2017. Gwelsom dystiolaeth o hanes gwasanaethu a chalibradu llawn ar gyfer y sganiwr yn unol â chanllawiau'r gweithgynhyrchydd.

Gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal o'r cyfarpar adfywio a'r cyfarpar brys a oedd yn cael eu cadw yn y clinig. Roedd y staff wedi dogfennu pryd roedd y gwiriadau hyn wedi'u cynnal er mwyn sicrhau bod y cyfarpar ar gael, ei fod yn gyfredol a'i fod yn ddiogel i'w ddefnyddio pe byddai argyfwng fel claf yn llewygu.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Wrth drafod â'r staff ac edrych ar gofnodion y cleifion, gwelsom fod y cleifion yn cael gofal diogel a chlinigol effeithiol. Dywedwyd wrthym fod manylion adnabod y cleifion yn cael eu gwirio cyn caniatáu iddynt fynd i mewn i'r sganiwr.

Roedd trefniadau diogel ar waith ar gyfer rhoi cyfrwng cyferbynnu i'r cleifion.

Roedd manylion y cyfrwng cyferbynnu a ddefnyddiwyd, rhif y swp, faint a roddwyd a phwysau'r claf yn cael eu cofnodi'n briodol yng nghofnodion y cleifion.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau clinigol perthnasol ar gael i'r staff i gefnogi eu hymarfer. Roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad ag ef yn ymwybodol o'r polisiau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith yn y clinig.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hapus yn gweithio yn y clinig. Roedd yn amlwg bod y staff yn ofalgar, a bod amser ychwanegol yn cael ei dreulio gyda chleifion nerfus i'w helpu i gael eu delweddau diagnostig yr oeddent wedi methu â'u cwblhau mewn lleoliadau blaenorol eraill.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd systemau addas ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Yn unol â'r rheoliadau, mae'r darparwr cofrestredig yn gofyn barn y cleifion fel ffordd o lywio'r gofal, yn cynnal archwiliadau ac yn asesu'r risgiau mewn perthynas ag iechyd a diogelwch yn rheolaidd.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw ar ffurf electronig. Roedd cyfrinair ar y system er mwyn atal achosion o fynediad heb awdurdod ac achosion o dor-cyfrinachedd.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion meddygol pum claf, a nodwyd eu bod yn glir, yn gywir ac yn ddarllenadwy. Roedd anghenion y cleifion yn cael eu hasesu'n briodol drwy sgysiau â'r tîm trefnu apwyntiadau cyn eu hapwyntiad a thrwy sgysiau â'r radiograffwyr cyn eu sgan. Roedd cofnodion y cleifion yn rhoi disgrifiad clir o'r weithdrefn sganio ac yn cael eu diweddar'u'n syth ar ôl yr apwyntiad.

Gwelsom fod yr adroddiadau o bob sgan yn cael eu llunio a'u hanfon at y clinigydd atgyfeirio o fewn tri diwrnod fan bellaf.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd strwythur rheoli cadarn ar waith a disgrifiwyd llinellau adrodd clir. Roedd y rheolwr cofrestredig yn ymroddedig ac roedd yn amlwg ei bod yn rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod y cleifion yn cael lefel briodol o ofal yn y clinig.

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith ac, ar y cyfan, roeddent wedi'u diweddarau mewn modd amserol. Roedd canllaw i gleifion ar gyfer y clinig yn cael ei arddangos yn ardal derbynfa'r clinig. Roedd y cleifion hefyd yn cael copi o'r canllaw i gleifion fel rhan o'u pecyn gwybodaeth cychwynnol. Gwelsom ei fod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol gan y rheoliadau a'i fod yn gyfredol. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd y datganiad o ddiben wedi cael ei ddiweddarau ers 2019.

Rhaid i'r gwasanaeth adolygu a diweddarau ei ddatganiad o ddiben a sicrhau ei fod ar gael os bydd cleifion yn gofyn amdano.

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar gael i'r staff i'w harwain yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Roedd y tîm rheoli a'r staff clinigol yn cynnal trafodaethau a sesiynau dadfriffio rheolaidd anffurfiol bob dydd ac yn mynd i gyfarfodydd mwy ffurfiol yn rheolaidd, lle roedd cofnodion yn cael eu cymryd.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn mynd i gyfarfodydd rheoli uwch ar lefel y cwmni i drafod unrhyw newidiadau i bolisïau, i drafod unrhyw ddigwyddiadau ac i rannu'r hyn a ddysgwyd mewn perthynas â gofal cleifion. Gwelsom dystiolaeth fod yr unigolyn cyfrifol wedi ymweld â'r clinig bob chwe mis i lunio adroddiad ysgrifenedig ar y gwasanaeth fel sy'n ofynnol yn y rheoliadau. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym mai anaml y byddai'r unigolyn cyfrifol ac uwch-aelodau eraill o'r staff rheoli yn dod i'r clinig ar wahân i'r ymweliadau hyn. Nid oedd y rheolwr cofrestredig yn cael sesiynau dal i fyny unigol rheolaidd ac roeddem o'r farn bod angen mwy o gymorth gan yr uwch-reolwyr.

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y caiff y rheolwr cofrestredig yn y clinig ei mentora, ei goruchwyllo a'i chefnogi'n briodol wrth gyflawni ei rôl.

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau wedi'u diffinio'n glir ar waith er mwyn sicrhau ffocws penodol ar wella'r gwasanaethau yn barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni'n rhannol drwy raglen dreigl o weithgareddau archwilio. Dywedwyd wrthym fod y clinig wedi cael sgôr o 97 y cant yn yr adolygiad sicrhau ansawdd blynyddol a gynhaliwyd yn 2023 gan y cwmni ehangach.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig gyfredol ar waith, a oedd i'w gweld yn ystafell aros y clinig. Roedd y weithdrefn hon yn cynnwys gwybodaeth i gleifion am bwy y gallent gysylltu â nhw i gael cyngor, yn ogystal â'r terfynau amser ar gyfer ymateb i gwynion. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd manylion cyswllt AGIC wedi'u cynnwys.

Rydym yn argymhell y dylai'r gwasanaeth ychwanegu manylion cyswllt AGIC at y daflen Sylwadau, Pryderon a Chwynion.

Byddai pryderon a chwynion ar lafar ac anffurfiol yn cael eu casglu a'u cofnodi gan y rheolwr cofrestredig. Gwelsom dystiolaeth yr ymatebwyd yn briodol i gwynion blaenorol o fewn y terfynau amser gofynnol. Caiff pob pryder ei fonitro gan y brif swyddfa, gan nodi a oes unrhyw themâu cyffredin yn dod i'r amlwg a rhannu'r wybodaeth hon â'r clinig.

Roedd system electronig sefydledig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am ymchwilio i unrhyw ddigwyddiadau a sicrhau bod camau priodol wedi'u cymryd. Roedd cyfarfod digwyddiadau yn cael ei gynnal bob wythnos i drafod themâu a thueddiadau a byddai unrhyw wersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu â'r staff yn y cyfarfod staff misol.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Clywsom fod un swydd wag ar hyn o bryd ar gyfer radiograffydd yn y clinig. Roedd hyn yn golygu bod y gwasanaeth yn gweithredu gan ddefnyddio'r isafswm staff sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion y cleifion. Gallai hynny beri risg i'r gwasanaeth a ddarperir pe byddai aelod o'r staff yn absennol am gyfnod yn ddirybudd. Roedd hefyd yn golygu nad oedd yn hawdd i'r rheolwr cofrestredig gymryd ei hawl i wyliau blynyddol. Nid oedd y trefniadau presennol yn ymddangos yn gynaliadwy o ran diogelu llesiant y staff nac o ran parhau i ddiwallu anghenion y cleifion.

Rhaid i'r gwasanaeth roi sicrwydd i AGIC o ran sut y gall sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy o ran adnoddau staff, er mwyn sicrhau nad yw'n effeithio ar lesiant yr aelodau presennol o staff.

Roedd cyfleoedd hyfforddi a datblygu priodol ar gael i'r staff pe byddent am ddatblygu eu rolau. Gwelsom dystiolaeth fod cyfraddau cydymffurfiaeth y staff â'u hyfforddiant gorfodol yn uchel, sef 94 y cant. Roedd y staff yn cael arfarniadau blynyddol gan y rheolwr cofrestredig i'w helpu i ddysgu a datblygu.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd polisi recriwtio cyfredol ar waith a oedd yn nodi'r trefniadau i sicrhau bod y broses recriwtio yn broses agored a theg. Cynhelir gwiriadau diogelwch cyn cyflogi staff er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn addas i weithio yn y clinig. Mae'r rhain yn cynnwys darparu geirdaon boddhaol gan gyflogwr blaenorol ar gyfer y tair blynedd diwethaf, tystiolaeth o gymwysterau proffesiynol a gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Alliance Medical Cardiff

Dyddiad yr arolygiad: 27 Chwefror 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn.				

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Alliance Medical Cardiff

Dyddiad yr arolygiad: 27 Chwefror 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Roedd polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i Gleifion ac Ymwelwyr ar waith. Fodd bynnag, nodwyd gennym mai'r dyddiad adolygu ar y polisi hwnnw oedd mis Ionawr 2024.	Rhaid i'r gwasanaeth adolygu'r polisi a rhannu'r polisi wedi'i ddiweddarau â'r staff ar ôl iddo gael ei gadarnhau.	Mae perchennog y polisi wedi adolygu'r polisi a chaiff y fersiwn ddiwygiedig ei chyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ar 8 Mai. Ar ôl iddo gael ei gymeradwyo a'i gadarnhau, caiff ei rannu â'r staff lleol	Saaïd Ali, Rheolwr Ymgysylltu â Chleifion	08 Mai 2024
Fodd bynnag, nid oedd y cwmni allanol yn cynnal nac yn llofnodi amserlenni glanhau i gofnodi'r ffaith eu bod wedi ymgymryd â gwaith glanhau.	Rydym yn argymhell y dylai'r gwasanaeth sicrhau y caiff cofnodion glanhau eu cwblhau a'u cadw ar ffeil er mwyn gallu	Cafodd hyn ei weithredu yn syth ar ôl iddo gael ei nodi yn ystod yr arolygiad. Mae'r glanhawr bellach yn llofnodi i gadarnhau pob ymweliad.	Melanie Jones, Rheolwr y Ganolfan	01 Mawrth 2024

	cyfeirio atynt yn y dyfodol.			
Nid oedd y polisi ‘Rheoli amgylchedd delweddu glân a diogel’ yn gyfredol a dylai fod wedi cael ei adolygu ym mis Ionawr 2023.	Rhaid i'r gwasanaeth adolygu'r polisi a rhannu'r polisi wedi'i ddiweddarau â'r staff ar ôl iddo gael ei gadarnhau.	Cafodd y polisi Rheoli amgylchedd delweddu glân a diogel ei ddisodli gan bolisi Rheoli Gwasttraff a pholisi Glanhau Amgylcheddol. Cafodd y ddau eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Atal a Rheoli Heintiau, eu cadarnhau gan y Pwyllgor Llywodraethu a'u rhannu â'r staff.	Jodi Ensell, Arweinydd Atal a Rheoli Heintiau	08 Mai 2024
Nid oedd y datganiad o ddiben wedi'i ddiweddarau ers 2019.	Rhaid i'r gwasanaeth adolygu a diweddarau ei ddatganiad o ddiben a sicrhau ei fod ar gael os bydd cleifion yn gofyn amdano.	Cafodd ei ddiweddarau yn ystod yr arolygiad.	Melanie Jones, Rheolwr y Ganolfan	27 Chwefror 2024
Nid oedd y rheolwr cofrestredig yn cael sesiynau dal i fyny unigol rheolaidd ac roeddem o'r farn bod angen	Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y caiff y rheolwr cofrestredig yn y clinig ei mentora, ei goruchwyllo a'i	Mae'r rheolwr yn cael Adolygiad Datblygu Perfformiad bob blwyddyn a bob hanner blwyddyn.	Melanie Jones, Rheolwr y Ganolfan	18 Ebrill 2024

<p>mwy o gymorth gan yr uwch-reolwyr.</p>	<p>chefnogi'n briodol wrth gyflawni ei rôl.</p>	<p>Nid oes sesiynau unigol wedi'u hamserlennu ond gall fynd i gyfarfod grŵp wythnosol bob dydd Gwener os bydd y lefelau staffio'n caniatáu hynny.</p>		
<p>Nid oedd manylion cyswllt AGIC wedi'u cynnwys yn y weithdrefn gwyno.</p>	<p>Rydym yn argymhell y dylai'r gwasanaeth ychwanegu manylion cyswllt AGIC at y daflen Sylwadau, Pryderon a Chwynion.</p>	<p>Mae'r daflen gwyno wrthi'n cael ei diweddarau i gynnwys manylion cyswllt AGIC. Caiff ei hargraffu a bydd ar gael yn y clinig i gleifion ac ymwelwyr.</p>	<p>Saaïd Ali, Rheolwr Ymgysylltu â Chleifion</p>	<p>03 Mehefin 2024</p>
<p>Nid oedd y trefniadau staffio presennol yn ymddangos yn gynaliadwy i ddiogelu llesiant y staff nac i barhau i ddiwallu anghenion y cleifion.</p>	<p>Rhaid i'r gwasanaeth roi sicrwydd i AGIC o ran sut y gall sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy o ran adnoddau staff, er mwyn sicrhau nad yw'n effeithio ar lesiant yr aelodau presennol o staff.</p>	<p>Mae cynllun recriwtio ar waith ar gyfer radiograffydd ychwanegol, ac rydym yn defnyddio staff banc i gefnogi'r gwasanaeth ar hyn o bryd.</p> <p>Dim ond y nifer o gleifion sy'n ddiogel ar gyfer lefelau staffio presennol y lleoliad rydym yn trefnu apwyntiadau ar eu cyfer.</p>	<p>Melanie Jones, Rheolwr y Ganolfan / Matt Freeman, Rheolwr Rhanbarthol</p>	<p>30 Ebrill 2024 - parhaus</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Melanie Jones

Teitl swydd: Rheolwr y Ganolfan

Dyddiad: 30 Ebrill 2024